

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

26 Ebrill 2019

Ystafell y Cyngor

10.00 – 1.00

Presennol:

Rhodri Glyn Thomas (Llywydd)
Gwilym Dyfri Jones
Steve Williams

Lee Yale-Helms (Trysorydd)
Hugh Thomas
Yr Arglwydd Aberdâr

Eleri Twynog Davies
Liz Siberry

Tîm Gweithredol:

Pedr ap Llwyd
David Michael

Prif Weithredwr a Llyfrgellydd
Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd

Hefyd yn bresennol:

Carol Edwards
Annwen Isaac
Nia Wyn Dafydd
Peter Owen

Rheolwr Llywodraethiant a Chlerc Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (Cofnodydd)
Rheolwr Adnoddau Dynol
Cyngor Partneriaeth
MALD

1.1 Croeso'r Llywydd a Sylwadau Agoriadol

Croesawodd y Llywydd bawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod, gan estyn croeso arbennig i Pedr ap Llwyd i'w gyfarfod cyntaf yn ei rôl fel Prif Weithredwr a Llyfrgellydd. Roedd Linda Tomos, Pedr a Rhodri wedi cyfarfod y diwrnod blaenorol ble trafodwyd trosglwyddo'r dyletswyddau yn ffurfiol i Pedr o hyn allan.

Yn dilyn y cyfarfod, mi fydd Elin Jones, AC, Llywydd y Cynulliad, yn dadorchuddio portread ohoni ei hun gan David Griffiths yng nghwmni ei theulu a gwesteion.

1.2 Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Richard Houdmont, Iwan Davies a Dyfrig Jones

1.3 Datgan Buddiannau

Datganodd y Llywydd ei fod yn Ymddiriedolwr ar Fwrdd Gardd Fotaneg Cymru.

Datganodd Gwilym Dyfri Jones ei fod yn aelod o staff Prifysgol y Drindod Dewi Sant ac yn Gyfarwyddwr Anweithredol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Datganodd Liz Siberry ei bod yn aelod o Gyngor Prifysgol Cymru, yn aelod o Gyngor Prifysgol y Drindod Dewi Sant ac yn Ymddiriedolwr o Ymddiriedolaeth Elusennol Gregynog.

Datganodd Steve Williams ei fod yn aelod o Brifysgol Abertawe.

Datganodd David Michael ei fod yn aelod annibynnol o Bwyllgor Archwilio Cronfa Treftadaeth y Loteri.

Datganodd Pedr ap Llwyd ei fod yn Gyfarwyddwr Anweithredol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

1.4 Cymeradwyo cofnodion cyfarfod 15 Chwefror a thrafod materion sy'n codi

Cymeradwywyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r materion a drafodwyd; cynigiwyd gan Hugh Thomas ac eiliwyd gan Gwilym Dyfri Jones.

Materion yn codi o'r cofnodion

Codiad Cyflog

Cafwyd diweddariad gan David Michael a nododd fod y Llyfrgell wedi derbyn canllawiau ar gyfer y cylch cyflog, ond ei bod yn aros i weld beth fydd cytundeb Llywodraeth Cymru gyda'r gweision sifil. Mae Grŵp Cyflog y Sector Datganoledig yn casglu gwybodaeth am gyflogau a thelerau gwaith y cyrff a noddir, a bydd David yn diweddarau'r Bwrdd ar unrhyw ddatblygiadau yn dilyn cyfarfod nesaf y Grŵp.

2.1 Prosiect yr Archif Ddarlledu

Disgwylir penderfyniad gan Fwrdd Cronfa Treftadaeth y Loteri yn Llundain ar 11 Mehefin ar gais Rownd 2.

7.3 Ymddiriedolwyr y Bwrdd Cynllun Pensiwn

Angen nodi yn ffurfiol fod yr Ymddiriedolwyr wedi cytuno i Susan Davies aros ymlaen fel Ymddiriedolwr y Bwrdd Cynllun Pensiwn.

8.4 Repertory

Addawyd yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd y byddai papur ynglŷn â'r Repertory yn cael ei rannu gyda'r Ymddiriedolwyr; mi fydd Carol Edwards yn anfon y papur ymlaen at yr Ymddiriedolwyr yn dilyn y cyfarfod.

8.5 Gwerthusiad Allanol o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr

Roedd y Prif Weithredwr yn awyddus i roi'r gwerthusiad allanol o'r neilltu tan i'r Adolygiad Teilwredig gael ei gwblhau, gan y bydd effeithiolrwydd y Bwrdd yn cael ei gwmpasu yn yr adolygiad yna. Gwell felly fyddai aros i weld beth fydd yr argymhellion yn deillio o'r adolygiad; cytunodd yr Ymddiriedolwyr gyda'r awgrym yma.

8.6 Casgliad Mumph

Mae'r gwleidyddion wedi dangos cryn ddiddordeb yn y casgliad yma gan fod nifer ohonynt yn cael eu portreadu yn y cartwnau. Mae Alun Cairns, Ysgrifennydd Gwladol, a'r Arglwydd Elis-Thomas wedi bod yn pwysu ar y Llyfrgell i brynu'r casgliad, ac roedd Pedr ap Llwyd yn falch o gyhoeddi fod y Llyfrgell erbyn hyn wedi ymrwmo i brynu'r casgliad. Roedd Mal Humphreys yn gofyn £100k am y casgliad, ond mae'r Llyfrgell wedi llwyddo i ostwng y pris i £75k, ac mae'r pris hefyd yn cynnwys hawlfraint y casgliad.

Bwriedir defnyddio £50k o'r Grant Pwrcasu, a chodi £25k ein hunain i dalu'r gost. Mae llythyr wedi ei ddrafftio i'w anfon at wleidyddion Cymreig yn son am bwysigrwydd y casgliad ac yn gofyn iddynt ystyried cyfrannu tuag at y pryniant. Gofynnwyd i'r Grŵp Tasg a Gorffen Codi Arian nodi'r bwriad hwn.

Mi fydd unrhyw wleidydd fydd yn cyfrannu yn derbyn cartŵn o'i dewis fel gwerthfawrogiad. Gan ein bod ar drothwy dathlu ugain mlynedd ers datganoli, cytunwyd y byddai'n amserol rhyddhau datganiad i'r wasg ynglyn â'r casgliad.

Gan fod y Llyfrgell eisoes yn berchen ar gartwnau Illingworth, mi fydd Casgliad Mumh yn ychwanegiad gwerthfawr at ein casgliad o gartwnau gwleidyddol.

1.5 Pwyntiau gweithredu o gyfarfod 23 Tachwedd

Y cyfan wedi eu gweithredu.

Adran 2 Materion sydd angen trafodaeth neu benderfyniad

2.1 Cynllun Ariannol Tymor Canolig

Cyflwynwyd y Strategaeth gan y Trysorydd.

Nododd bod y Pwyllgor Cynllunio Ariannol wedi'i drafod yn fanwl yn ei gyfarfod ar 5 Ebrill, a taw penderfyniad unfrydol yr Aelodau oedd y dylid awgrymu mabwysiadu'r opsiwn canlynol, sef:

“byddai cronfeydd preifat anghyfyngedig y Llyfrgell yn gwneud cyfraniadau blynyddol o 2020/21 i gefnogi costau rhedeg y Cronfeydd Cyhoeddus - ac yn arbennig y dyfarniad cyflog.”

Golygai hyn y byddai angen neilltuo £1.4m o'r cronfeydd preifat anghyfyngedig dros y pedair blynedd nesaf yma, sef £300k y flwyddyn o 2020/21 tan 2022/23, ac yna £500k yn 2024.

Gallai oblygiadau peidio â dilyn y trywydd hwn, yn ôl y Trysorydd, fod yn niweidiol oherwydd fe fyddai angen lleihau'r gweithlu a thorri ein gwasanaethau.

Pwysleisiodd y Llywydd mai neilltuo'r arian a oedd angen ei wneud ar hyn o bryd ac ni fyddai'r penderfyniad yn cael ei weithredu pe bai'r GIA yn cael ei gynyddu i'r lefel y dylai fod.

Mynegwyd peth pryder ynghylch defnyddio arian preifat i'r perwyl hwn, ond fe gytunwyd bod rhaid i'r Ymddiriedolwyr gynllunio'n gyfrifol ar gyfer y dyfodol, a chytunwyd, ar ôl trafodaeth, y dylid mabwysiadu argymhelliad y pwyllgor Cynllunio Ariannol.

Cytunwyd y byddai'r Strategaeth yn cael ei hadolygu'n flynyddol, a gofynnwyd i'r Tîm Gweithredol ddiweddarau'r Bwrdd ymhob cyfarfod o hyn allan ynghylch y sefyllfa gyllidol, ac yn arbennig y drafodaeth sydd angen ei gael gyda Llywodraeth Cymru ynghylch annigonolrwydd y cyllido presennol.

Wrth ymateb i gwestiwn, nododd David Michael fod y cyfan o'r cronfeydd preifat heblaw am £500k yn rhai anghyfyngedig, a bod gan y Bwrdd ddisgresiwn sut i wario'r arian hynny. Daethpwyd i'r penderfyniad ar y swm o £300k fel cyfraniad o'r cronfeydd preifat gan mai dyma'r llog ar y cyfalaf o £11.6m - ni fyddai'r cyfalaf yn cael ei ddefnyddio o gwbl. Felly, pwysleisiwyd mai'r incwm blynyddol a darddai o'r cronfeydd preifat y byddid yn ei ddefnyddio pe baem yn gorfod gweithredu'r penderfyniad hwn.

Pleidleisiwyd yn unfrydol i warantu'r cyfanswm o £1.4m hyd at ddiwedd 2024 a diolchodd y Prif Weithredwr i'r Ymddiriedolwyr am eu cefnogaeth. Mi fydd y Llyfrgell yn cychwyn llobio Llywodraeth Cymru ynghylch annigonolrwydd y GIA presennol, a gofyn iddynt gydnabod hefyd y pwysau cynyddol sydd ar y Llyfrgell i godi mwy o arian. Bydd y Prif Weithredwr a'r Dirprwy yn codi'r materion hyn gyda'r Llywodraeth Cymru ac yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd.

2.2 Strwythur Pwyllgorau'r Bwrdd

Gan fod Adolygiad Teilwredig ar y gweill, penderfynwyd peidio argymhell unrhyw newidiadau i strwythur pwyllgorau'r Bwrdd am y tro a hyd nes bydd yr adolygiad wedi ei gwblhau.

Nodwyd bod angen penodi cadeirydd newydd i'r Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad. Awgrymodd y Prif Weithredwr y gellid gwneud hyn ar ôl i'r broses bresennol o benodi aelodau newydd i'r Bwrdd gael ei gwblhau, ac y gellid gofyn i un o'r aelodau presennol lenwi'r bwch yn y cyfamser. Cytunwyd â'r awgrym a chydysniodd Eleri Twynog Davies i gadeirio'r cyfarfod ar 17 Mai.

Adran 3 Gwybodaeth a Diweddariadau

3.1 Y Gen Ionawr – Mawrth 2019

Cyflwynwyd adroddiad Y Gen gan y Prif Weithredwr, ac roedd am ddiolch i'r staff am yr holl waith sy'n cael ei amlygu yn yr adroddiad yma.

Mewn ymateb i gwestiwn gan yr Ymddiriedolwyr ynglŷn â chylchrediad yr adroddiad yma, cadarnhawyd ei fod ar gael yn gyhoeddus ar ein gwefan. Awgrymwyd hefyd y dylid ei anfon i'r Cyfeillion.

<https://www.llyfrgell.cymru/am-llgc/llywodraethiant/dogfennaeth-gorfforaethol/>

Gwnaethpwyd pwynt ynglŷn â rhoi gwybod i Ymddiriedolwyr am unrhyw ddigwyddiadau sydd yn digwydd yn eu hardaloedd, fel bod modd iddynt fynychu a chynrychioli'r Llyfrgell. Addawyd y byddai hyn yn cael ei wneud.

3.2 Cynllun Gweithredu Ionawr – Mawrth 2019

3.3 Dangosyddion Perfformiad 2018 – 2019

Trafodwyd 3.2 a 3.3 gyda'i gilydd.

Ni dderbyniwyd y Llythyr Cylch Gorchwyl tan yn hwyr iawn eleni, ac mi fydd y Prif Weithredwr yn cychwyn gweithio'n fuan ar Gynllun Gweithredu 2019 /2020. Mi fydd yn ei ddsbarthu i'r Ymddiriedolwyr am eu sylwadau. Mae trafodaethau'n digwydd ar hyn o bryd gyda Llywodraeth Cymru i gytuno ar ddangosyddion cyflawni ymarferol a defnyddiol ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Gofynnwyd a fyddai modd paratoi adroddiad byr ar y 5 dangosydd pwysicaf a'r 5 sy'n peri problem i'r Llyfrgell o ran cyrhaeddiad. Cytunodd y Prif Weithredwr i baratoi adroddiad i gyfarfod nesaf y Bwrdd, ac i wahodd Owain Roberts, Cyfarwyddwr Casgliadau a Rhaglenni Cyhoeddus Dros-dro, i'r cyfarfod i roi cyflwyniad byr, gan mai ef sydd wedi bod yn trafod y dangosyddion gyda Llywodraeth Cymru

3.4 Llythyr Cylch Gorchwyl 2019 - 2021

Mynegwyd pryder gan un o'r Ymddiriedolwyr nad oedd yr atodiad ariannol yn y Llythyr Cylch Gorchwyl yn cydnabod pwys a statws y Llyfrgell fel sefydliad cenedlaethol ac na fyddai modd cyflawni'r cyfan yn y Llythyr o fewn y gyllideb sydd wedi ei bennu. Er ei fod yn cydymdeimlo i raddau helaeth â sylwadau'r Aelod, fe nododd y Prif Weithredwr fod cynnwys y Llythyr wedi ei drafod sawl gwaith rhwng y Llyfrgell a Llywodraeth Cymru, a'n bod ni wedi cytuno â'i gynnwys cyn iddo gyrraedd. Fe fydd y Llyfrgell yn ceisio'i gorau i gyflawni gofynion y Llythyr, a chan fod nifer o'r gofynion a restrir yn y Llythyr wedi eu cynnwys yn ein strategaeth beth bynnag, hyderir y medrwn fodloni gofynion y Llywodraeth. Serch hynny, nid ar chwarae bach y byddwn yn medru eu cyflawni ond yn hytrach trwy waith caled ac ymdrech glew gan ein staff.

"Parhau â'r gwaith i gynyddu cyllid o ffynonellau allanol" - gofynnwyd a byddai modd i'r Llyfrgell geisio negodi cyllid ar gyfer cyflawni hyn, a chytunodd y Tîm Gweithredol i ddechrau deialog gyda Llywodraeth Cymru ynghylch y mater.

"Parhau i ddarparu cymorth strategol o'r sector llyfrgelloedd ehangach yng Nghymru" - mynegwyd pryder fod llyfrgelloedd cyhoeddus yn cael eu cyllido gan y cynghorau a bod mwy a mwy o lyfrgelloedd cyhoeddus yn cael eu cau gan y cynghorau hynny, neu'n dibynnu ar wirfoddolwyr i'w rhedeg. Nododd y Llywydd fod y Llyfrgell yn gwbl barod i estyn cymorth a chydweithio gyda llyfrgelloedd cyhoeddus, ond na fyddai'n derbyn unrhyw gyfrifoldeb amdanynt.

Adran 4 Materion Ariannol

4.1 Cyfrifon Rheoli hyd at ddiwedd Mawrth 2019

Cyflwynwyd y cyfrifon rheoli gan David Michael. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, rhoddodd Llywodraeth Cymru £250k o GIA ychwanegol i'r Llyfrgell - £155k tuag at gostau refeniw cyflog a £95k rhent y Comisiwn Brenhinol am y flwyddyn nesaf. Roedd David am ddatgan ei ddiolch i Lywodraeth Cymru am hyn, gan ei fod yn golygu fod y Llyfrgell yn torri'n hafal ar y diwedd y flwyddyn ariannol.

Mae tanwariant ar yr ochr gyfalaf ond mae'r cytundeb ar gyfer y gwaith ar yr adeilad ar fin cael ei osod.

Diolchodd y Trysorydd a'r Llywydd i'r Tîm Gweithredol am sicrhau cyllideb hafal ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Adran 5 Adroddiadau o Bwyllgorau

5.1 Cofnodion Drafft Pwyllgor Ymgynghorol Adeiladau a gyfarfu 13.03.19

Amlinellodd David Michael y sefyllfa ddiweddaraf ynglŷn â'r anghydfod asbestos. Mae'r Llyfrgell wedi dod i gytundeb gyda John Weaver ac mae John Weaver wedi derbyn cyfarwyddyd y penseiri. Diolchodd David i Liz Siberry a Hugh Thomas am eu cymorth a'u cyngor, a hefyd Richard Baker a Huw Davies o Lywodraeth Cymru. O ran Lucion a Kaefer, mae'r Llyfrgell yn parhau i edrych am dystiolaeth i weld os oes modd dod ag achos yn eu herbyn.

Nododd David hefyd fod Llywodraeth Cymru erbyn hyn wedi clustnodi arian cyfalaf ychwanegol o £1.325m fydd yn galluogi'r Llyfrgell i fedru gosod y cytundeb cyfan am y gwaith adeiladu ar y prif adeilad. Mi fydd y gwaith ar yr adeilad felly yn cychwyn ym mis Mai.

Ychwanegodd Liz Siberry, Cadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol Adeiladau, fod trafodaethau gyda Chyngor Sir Ceredigion a Cadw wedi arwain at adeiladu perthynas bositif iawn.

Nodwyd ymhellach fod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cael eu diweddarau'n gyson ynghylch y materion hyn a bod y Llyfrgell wedi ceisio a llwyddo i dderbyn eu cymeradwyaeth ynghylch pob cam o'r ffordd. Mae'r Tîm Gweithredol yn hynod ddiolchgar i'r swyddogion hyn am eu cyngor a'u cydweithrediad.

5.2 Cofnodion Drafft Pwyllgor Cynllunio Ariannol a gyfarfu ar 05.04.19

Nododd y Cadeirydd, Lee Yale-Helms, mai'r prif bynciau a drafodwyd oedd y gyllideb, cyfrifon rheoli, Grant Pwrcasu a'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Gan mai cofnodion drafft yn unig oedd y rhain, bydd y Cadeirydd yn cysylltu gyda'r Clerc gyda newidiadau a chywiriadau.

5.3 Cofnodion Drafft Pwyllgor Archwilio a Risg a gyfarfu ar 12.04.19

Nododd y Cadeirydd Hugh Thomas, fod y Pwyllgor wedi craffu'n fanwl ar Adroddiad Blynyddol Caffael, ac wedi gofyn am adroddiad i'r cyfarfod nesaf ar sut mae'r Llyfrgell yn gweithio mewn partneriaeth yn lleol ac ar draws y DU i sicrhau gwerth gorau gan gyflenwyr o ran pris, ansawdd a lefelau gwasanaeth.

Mae'r Gofrestr Risgiau'n cael ei diweddarau yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor, a gofynnodd y Cadeirydd i'r Gofrestr gael ei chyflwyno o hyn allan i bob cyfarfod o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

Cafwyd cyflwyniad gan Grant Vernon, Rheolwr Archwilio, yr Isadran Sicrwydd Archwilio a Gwrth-dwyll, Llywodraeth Cymru ar ymagwedd gwasanaeth ar y cyd ar gyfer gwasanaethau archwilio mewnol. Roedd y Cadeirydd am atgoffa'r Ymddiriedolwyr fod angen sicrwydd bod ansawdd y gwasanaeth archwilio mewnol yn cael ei gynnal, ac nad cost yn unig ddylai fod wrth wraidd unrhyw benderfyniad.

5.4 Grŵp Tasg a Gorffen Codi Arian

Yn absenoldeb Richard Houdmont, Cadeirydd y Grŵp, cafwyd crynodeb o'r trafodaethau gan y Prif Weithredwr. Roedd y Grŵp wedi ystyried y sefyllfa bresennol o ran codi arian, a thrafodwyd papur a gyflwynwyd i'r Bwrdd yn 2016 ar y pwnc. Pwysleisiwyd hefyd y dylai codi arian gael ei ddefnyddio ar gyfer prosiectau ychwanegol ac nid ar gyfer gwasanaethau craidd. Tynnwyd sylw'r Grŵp at y ffaith mai dim ond un aelod o staff sydd yn gweithio ar godi arian a gofynnwyd i'r Tîm Gweithredol baratoi cyfiawnhad i gael adnoddau staffio ychwanegol ar gyfer codi arian.

Cytunodd y Grŵp ar yr amcanion canlynol ar gyfer y flwyddyn - canolbwyntio ar gymynroddion, ymddiriedolaethau a thaliadau micro ar y wefan. Y camau nesaf fydd i'r Prif Weithredwr baratoi papur ar gael adnoddau staffio ychwanegol ar gyfer codi arian, paratoi rhestr o'r 20 prif ymddiriedolaeth, ac arbofi gyda "popups" ar gyfer rhoddion ar dudalennau'r wefan. Mi fydd Yr Arglwydd Aberdâr hefyd yn drafftio papur byr ar ei brofiad ef o godi arian.

Trafodwyd hefyd sut y gall Ymddiriedolwyr gynorthwyo gyda'r gwaith o godi arian, a diolchwyd i'r Arglwydd Aberdâr yn benodol am fod yn llysgennad i'r Bwrdd a'r Llyfrgell yn Nhŷ'r Arglwyddi a'r Tŷ Cyffredin. Atgoffodd y Llywydd yr aelodau hefyd o gynllun y Cyfeillion, a nododd Clerc y Bwrdd y byddai'n gofyn i Rhian Evans anfon ffurflenni ymaelodi at yr Ymddiriedolwyr.

Adroddodd y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd fod gwybodaeth am gymynrodd sylweddol iawn wedi dechrau cyrraedd y Llyfrgell yn ystod y dyddiau diwethaf yma: adroddir ar hyn yn y man.

Adran 6 Materion y Llyfrgellydd

6.1 Digwyddiad yn Nhŷ'r Arglwyddi – adborth

Diolchodd y Llywydd i'r Arglwydd Aberdâr am noddi'r noson, oedd yn un hynod o lwyddiannus. Mynychwyd y digwyddiad gan tua 70 o wahoddedigion, ac roeddent yn amlwg wedi mwynhau'r digwyddiad. Mae llythyr dilynol, ynghyd â thaflen y Gronfa Gasgliadau a ffurflen ymaelodi â'r Cyfeillion, yn mynd i gael eu hanfon at bawb wnaeth fynychu'r noson.

6.2 Adolygiad Teilwredig

Cyfarfu Julia Douch, Pennaeth Uned Cyrff Cyhoeddus a Lindi Lloyd, Pennaeth Cyflawni Gwasanaeth a Gwelliant Llywodraeth Cymru â'r Prif Weithredwr, David Michael a Carol Edwards i drafod y sgôp ar gyfer yr adolygiad ar 28 Mawrth.

Y Llyfrgell yw'r corff cyhoeddus cyntaf yng Nghymru i gytuno ar gynnal adolygiad o'r fath. Mi fydd y sgôp diffiniedig, cylch gorchwyl, amserlenni, proses ac adrodd yn gytundeb ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a'r Llyfrgell, gyda'r Uned Cyrff Cyhoeddus yn arwain a hwyluso.

Mae'r Llyfrgell wedi cyflwyno sylwadau ar y sgôp cychwynnol, ac mae Iwan Davies, un o'r Ymddiriedolwyr, wedi cytuno i fod yn aelod o'r panel. Mae'r Llyfrgell yn disgwyl gwybodaeth a dogfennaeth bellach yn fuan.

6.3 Adolygiad Blynyddol 2018 – 2019

Cyn iddi ymddeol, drafftiodd Linda Tomos destun cychwynnol ar gyfer yr adolygiad ac mae'r Prif Weithredwr wrthi'n diwygio ac ychwanegu at hwn cyn iddo gael ei ddylunio. Gobeithio bydd modd rhannu drafft gyda'r Ymddiriedolwyr yn fuan.

6.4 Ysgoloriaeth PhD

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi cytuno i gyllido PhD ar y cyd gyda'r Llyfrgell a Phrifysgol Bangor. Mae hysbyseb ar fin ymddangos ar y cyd rhyngom ni, Prifysgol Bangor a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Aeth y Prif Weithredwr ymlaen i esbonio y bydd gan y Llyfrgell bresenoldeb annibynnol yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni.

6.5 Gŵyl y Gelli

Cytunwyd y dylai'r Prif Weithredwr ystyried sut y gallai'r Llyfrgell gael presenoldeb yng Ngŵyl y Gelli o'r flwyddyn nesaf ymlaen.

Adran 7 Materion y Llywydd

7.1 Apwyntiadau i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr - diweddariad

Adroddodd y Llywydd fod 14 cais wedi eu derbyn, a'r bwriad oedd cyfweld 9 o ymgeiswyr rhwng 30 Ebrill - 2 Mai. Yn anffodus, mae oedi pellach wedi codi o du'r Llywodraeth ac mae'r dyddiadau wedi newid i 22 a 23 Mai. Disgwylir i'r rhai a benodir cychwyn ar 1 Gorffennaf.

Y panel cyfweld ar gyfer swydd yr Is Lywydd fydd Peter Owen, Mai Parry Roberts a Rhodri Glyn Thomas, ac ar gyfer swyddi'r Ymddiriedolwyr Mary Ellis, Mai Parry Roberts a Rhodri Glyn Thomas.

Adran 8 Unrhyw fater arall

8.1 Storio Casgliadau Digidol

Cyflwynodd y Prif Weithredwr, Illtud Daniel i roi cefndir i'r pwnc o storio casgliadau digidol.

Erbyn hyn, mae mwy o ddeunydd yn ein cyrraedd yn electronig na thrwy gyfrwng print, ac rydym hefyd yn archifo cynnwys y We - gwaith sydd wedi ei rannu rhwng yr holl lyfrgelloedd adnau cyfreithiol. Mae'r wybodaeth yn cael ei storio mewn pedwar "node" - 2 yn y Llyfrgell Brydeinig, un yn yr Alban ac un yn y Llyfrgell Genedlaethol; trwy rannu'r data yn y ffordd yma, mae'n rhoi mwy o sicrwydd o beidio â cholli unrhyw ddata. Mae'r Llyfrgell Brydeinig yn arwain ar gynnig i roi'r gorau i storio gwybodaeth ar safle'r Llyfrgell a symud i storio yn y cwmwl; mae sawl model posib i gael ar gyfer hyn, ond hyd yma, does dim costau wedi eu darparu.

Gofynnodd Illtud felly beth oedd barn yr Ymddiriedolwyr am hyn, ac a oeddent yn ystyried ei bod yn bwysig i barhau i storio'r wybodaeth yma yn y Llyfrgell. Barn yr aelodau oedd y dylai'r Tîm Gweithredol a'r staff perthnasol barhau gyda thrafodaethau a chyflwyno adroddiad i gyfarfod mis Gorffennaf i ddiweddarau'r Bwrdd.

8.2 Peter Owen

Mynegodd y Llywydd ei ddiolch diffuant i Peter Owen, gan mai dyma ei gyfarfod olaf cyn ymddeol. Mae Peter wedi bod yn hynod gefnogol o'r Llyfrgell yn ystod ei gyfnod byr yn MALD a byddwn yn gweld eisiau ei gefnogaeth yn fawr iawn. Dymunwn ymddeoliad hir a hapus iddo, ac roedd yn bleser gan y Llywydd gyflwyno rhodd i Peter ar ran y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol fel gwerthfawrogiad o'i gefnogaeth i'r Llyfrgell dros y blynnyddoedd.

Diolchodd Peter i'r Ymddiriedolwyr a'r Tîm Gweithredol am eu dymuniadau gan nodi ei fod wedi mwynhau'r cysylltiad gyda'r Llyfrgell. Nododd ei fod yn sefydliad eithriadol gyda staff gwych sy'n cael pob cefnogaeth gan y Bwrdd.

**** DIWEDD Y CYFARFOD ****